

DEALL RÔL LLAIS MEWN NEWIDIADAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

Beth yw Llais?

Rydym yn gorff statudol annibynnol, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi llawer mwy o lais i bobl Cymru yng nghynllunio a darparu eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol – yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae ein gwaith yn cwmpasu llawer o feysydd – rydym yn casglu adborth am eich profiadau, yn hyrwyddo gwelliannau yn ansawdd gwasanaethau ac yn cefnogi pobl i godi pryderon. Un agwedd bwysig ar ein gwaith yw sicrhau bod eich barn yn cael ei chlywed pan fydd newidiadau i wasanaethau yn cael eu hystyried.

Sut rydym yn helpu pan fydd gwasanaethau'n newid

Pan fydd y GIG neu'ch cyngor lleol yn bwriadu gwneud newidiadau i wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol, mae Llais yma i gynrychioli eich buddiannau.

Rydym yn hyblyg ac yn ymatebol

Mae Llais yn dewis sut a phryd i ymwneud â newidiadau i wasanaethau yn seiliedig ar yr hyn sydd bwysicaf i chi. Mae hyn yn golygu y gallwn ganolbwyntio ein hymdrechion lle byddant yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'ch gofal.

Rydym yn cwmpasu iechyd a gofal cymdeithasol

Mae Llais yn cynrychioli eich buddiannau mewn gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae hyn yn golygu y gallwn ni gymryd golwg gydlynol ar sut mae'r holl wasanaethau hyn yn gweithio gyda'i gilydd i chi.

Rydym yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n gwneud gwahaniaeth

Rydym yn mesur ein llwyddiant yn ôl pa mor effeithiol rydym yn adlewyrchu eich barn a'ch pryderon i ddarparwyr gwasanaethau a'r gwelliannau gwirioneddol y mae hyn yn eu dwyn i ofal.



Pryd a sut rydym yn ymwneud â newidiadau i wasanaethau

Gan mai dim ond un rhan o'n gwaith yw newid gwasanaeth, rydym yn ystyried yn ofalus pa mor gysylltiedig y dylem fod ym mhob newid arfaethedig. Mae angen i ni gydbwyso ein gwaith newid gwasanaeth â'n gweithgareddau eraill er mwyn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i bobl ledled Cymru.

Rydym yn penderfynu pa mor gysylltiedig ydym ni yn seiliedig ar:

- Faint o bobl fydd yn cael eu heffeithio
- Pa mor fawr y gallai'r effaith fod
- A fydd pobl mewn sefyllfaoedd agored i niwed yn cael eu heffeithio'n arbennig
- Pa mor bryderus yw'r cyhoedd am y newid
- P'un a oes unrhyw bryderon diogelwch neu ansawdd
- A oes sawl newid yn digwydd mewn un ardal ar yr un pryd.

Gallai ein cyfranogiad gynnwys:

- Mynychu cyfarfodydd cynllunio
- Adolygu gwybodaeth a ddarparwyd gan y GIG neu'r cyngor
- Trafod newidiadau yn ystod ein cyfarfodydd rheolaidd gyda'r GIG neu'r cyngor lleol
- Gofyn cwestiynau wedi'u ffocysu ynghylch sut y bydd y newidiadau'n effeithio ar grwpiau penodol
- Monitro adborth a dderbyniwn drwy ein sianeli arferol
- Rhoi adborth i wneuthurwyr penderfyniadau'r GIG a'r cyngor am y cynigion.

Rhaid i'ch GIG lleol ddweud wrthym am newidiadau

Rhaid i sefydliadau'r GIG hysbysu Llais yn awtomatig am newidiadau arfaethedig i wasanaethau. Rhaid iddyn nhw hefyd ystyried ein hadborth wrth wneud penderfyniadau.

Mae angen i ni ofyn i gynghorau am eu newidiadau

Ar gyfer gofal cymdeithasol, mae angen i ni fod yn fwy rhagweithiol. Mae'n rhaid i ni ofyn i gynghorau lleol ddweud wrthym am eu newidiadau arfaethedig, ond mae'n rhaid iddyn nhw ddarparu'r wybodaeth hon pan fyddwn ni'n gofyn amdani.

Sut allwch chi ein helpu ni

- Dywedwch wrthym am eich profiadau gyda gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- Rhannwch eich meddyliau, gan gynnwys unrhyw bryderon am newidiadau a gynlluniwyd neu ddiweddar
- Helpwch ni i ddeall beth sydd bwysicaf i chi a'ch cymuned.



Cysylltwch â ni

Os ydych chi eisiau gwybod mwy am Llais neu os ydych chi eisiau siarad â ni am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn eich ardal, cysylltwch â ni:

Llais
Adeiladau'r Coron,
Parc Cathays,
Caerdydd.
CF10 3NQ

02920 235 558
ymholiadau@llaiscymru.org
www.llaiscymru.org

Cofiwch, Llais yw eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Rydyn ni yma i helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio i chi.